05059 - Assisted Places:Layout 1 06/10/2014 11:38 Page 1

**Mae nawdd ar gael ar gyfer gwella lles neu ansawdd bywyd plant a chanddynt anabledd neu anghenion ychwanegol, a phlant mewn angen, drwy sicrhau bod gofal pwrpasol o safon ar eu cyfer.**

## Meini Prawf Noddi

Byddwn yn helpu plant sy'n wynebu:

- **anawsterau emosiynol ac ymddygiadol;**
- **anawsterau dysgu**
- **anawsterau corfforol**
- **anawsterau sy'n ymwneud â siarad, iaith a chyfathrebu**

Byddwn hefyd yn helpu plant mewn teuluoedd sy'n byw ar incwm bach neu'n derbyn budd-daliadau ar gyfer y di-waith.

## Cymorth Gofal Plant

Defnyddir y nawdd i helpu plant i fanteisio ar ddarpariaeth **gofrestredig** ar gyfer rhai o dan oedran ysgol (cylchoedd chwarae a meithrin, gofalwyr plant, meithrinfeydd) a darpariaeth y tu allan i'r ysgol (clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a chynlluniau gwyliau).

Bydd plant yn cael cynnig dwy sesiwn dair awr yr wythnos (ac weithiau bydd yn bosibl trefnu oriau ychwanegol).

Bydd pob lleoliad yn cael ei gynnig am 12 wythnos ar y dechrau, a'i adolygu yn ystod y cyfnod hwnnw a'i ymestyn weithiau hefyd pan fydd nawdd ar gael.

www.valeofglamorgan.gov.uk

## Atgyfeiriadau

Byddwn yn cyfeirio plant at nifer o wahanol weithredwyr gan gynnwys Ymwelwyr Iechyd, Gweithwyr Cymdeithasol, Tîm Iechyd ac Anabledd Plant, Ysgolion a llawer mwy'n ogystal.

## Chwilio am leoliad gofal plant

Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn fwy na bodlon eich helpu i ddod o hyd i ofal addas ar gyfer eich plentyn, a chewch ei ffonio ar 01446 704704.

## Ymweld â ni am y tro cyntaf

Pan fydd tîm y Blynyddoedd Cynnar yn derbyn cais am gyfeirio plentyn, bydd y gweithiwr gofal plant yn cysylltu â'r rhieni neu'r gofalwyr er mwyn cael trefnu i ymweld â hwy yn eu cartref. Byddant wedyn yn trafod y cynllun a'r dewis o ofal sydd ar gael ar gyfer eu plentyn. Caiff y gweithiwr gofal plant ddod i'r cyfarfod lleoliad gofal plant cyntaf hefyd os yw'r rhieni/gofalwyr yn dymuno hynny.

Os hoffech gael gwybod mwy am y cynllun, y mae croeso i chi ffonio tîm y Blynyddoedd Cynnar ar 01446 709269.



www.valeofglamorgan.gov.uk

# Information on the Vale of Glamorgan's Assisted Places Scheme



**The Assisted Places Scheme is directed by the Early Years Development and Childcare Partnership (EYDCP) in the Vale of Glamorgan.**

**Funding is available to support the improvement in the welfare or quality of life of a child with a disability/ additional need, or a child in need by providing good quality childcare to support the child's needs.**

## Criteria for funding

We are able to support children who have:

- **Emotional & behavioural difficulties**
- **Learning difficulties**
- **Physical difficulties**
- **Speech, language and communication difficulties**

We are also able to support children from low income families or families in receipt of out of work benefits.

## Childcare Support for children

The funding is allocated towards supporting children in **registered** pre-school (Playgroup, Cylch Meithrin, childminders, nursery) and Out of School Settings (breakfast and afterschool clubs and holiday schemes).

Children are offered a maximum of 2 X 3 hr. sessions per week (additional hours maybe arranged under certain circumstances).

Placements are arranged for 12 weeks initially which are reviewed within this time and subject to funding available could be extended.



## Referrals

Referrals are made via a range of different agencies including Health Visitors, Social Workers, Child Health & Disability Team, Schools, plus many more.

## Looking for a childcare placement

When looking for suitable childcare, please contact the Family Information Service on 01446 704704 who will be happy to help you with your search.

## Making an initial visit

Once the referral has been received by the Early Years team, the child's parent/carer will be contacted by the childcare worker who will arrange a home visit. Information about the scheme and childcare options available will be discussed. The childcare worker is able to accompany the parent/carer and child on the initial childcare placement visit should they wish.

For more information about the scheme, please contact the Early Years team on 01446 709269.



www.valeofglamorgan.gov.uk

# Gwybodaeth am Gynllun Lleoedd â Chymorth Bro Morgannwg



**Cynllun sy'n cael ei reoli gan Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ym Mro Morgannwg yw hwn.**